# Adroddiad Arolygu ar gyfer

**Breakaway Short Stay Service**

**Pen-y-bont ar Ogwr**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**

## Dyddiad y cwblhawyd yr arolygiad

14/9/2022

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2022.***

*Gallwch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sy'n ymddangos yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio logos) yn rhad ac am ddim, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

# Ynglŷn â Breakaway Short Stay Service

| | |
|---|---|
| Y math o ofal a ddarperir | Gwasanaeth cartref gofal<br>Oedolion heb ofal nyrsio |
| Darparwr cofrestredig | Gwasanaethau Oedolion a Phlant Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr |
| Lleoedd cofrestredig | 6 |
| Iaith y gwasanaeth | Y ddwy iaith |
| Arolygiad blaenorol gan Arolygiaeth Gofal Cymru | [Mewnosod â llaw] 2 Medi 2021 |
| A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg? | Mae'r gwasanaeth yn darparu 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Mae'n rhagweld, yn nodi ac yn diwallu anghenion Cymraeg a diwylliannol y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu a all ei ddefnyddio. |

## Crynodeb

Mae Breakaway yn wasanaeth arhosiad byr a ddarperir gan awdurdod lleol ar gyfer arosiadau wedi'u cynllunio ac arosiadau brys. Mae awyrgylch hamddenol a chyfeillgar yn y cartref. Mae'r staff gofal yn cefnogi'r bobl i gael dewis yn eu dydd ac i gynnal cymaint o'u trefniadau arferol a chyflawni cymaint o'u tasgau arferol yn ystod eu harhosiad ag y gallant. Bu newid yn y rheolwr, a newidiadau yn y tîm staff yn y cartref. Mae'r gwasanaeth bellach yn gweithio ochr yn ochr â chwaer wasanaethau eraill yr awdurdod lleol i ddarparu mwy o hyblygrwydd a gwasanaeth sy'n gallu diwallu anghenion y bobl yn well a darparu gwasanaeth wedi'i deilwra'n well i amgylchiadau'r bobl.

Mae cynlluniau personol y bobl yn nodi eu dymuniadau ar gyfer eu harhosiad a'r anghenion gofal a chymorth sydd ganddynt tra byddant yn y gwasanaeth. Caiff canlyniadau'r bobl eu monitro yn ystod eu harhosiad presennol a'u hadolygu cyn iddynt ddychwelyd i'r gwasanaeth. Mae'r gwasanaeth yn cysylltu â gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol eraill sy'n ymwneud â gofal y bobl i sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth ddiweddaraf am eu hanghenion a'u trefniadau arferol. Mae'r staff gofal presennol wedi'u hyfforddi a'u goruchwylio'n briodol. Mae cyfleusterau ac offer yn cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw i sicrhau eu bod yn ddiogel i'w defnyddio. Mae'r unigolyn cyfrifol yn goruchwylio'r gwasanaeth drwy ymweliadau monitro chwarterol a thrwy gasglu adborth gan y staff gofal a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Nid yw'r rhan fwyaf o'r polisïau a gweithdrefnau craidd wedi'u diweddaru fel sy'n ofynnol.

## Llesiant

Cefnogir y bobl i gael rheolaeth dros eu bywydau o ddydd i ddydd wrth aros yn Breakaway. Maent yn gallu gofyn am eu hoff fwydydd ac aros yn eu hoff ystafell lle bo modd, a chânt eu cefnogi i fynd allan i wneud gweithgareddau hamdden o'u dewis. Mae'r staff gofal hefyd yn hwyluso'r bobl i allu dilyn eu trefn arferol o fynd i wasanaethau dydd, gwaith neu addysg gymaint ag sy'n bosibl yn ystod eu harhosiad. Mae'r bobl sy'n dod i aros yn Breakaway ar arhosiad brys yn cael eu cyfarch yn gynnes, ac mae'r staff gofal yn ceisio dysgu cymaint â phosibl am eu hoff bethau a'u cas bethau unwaith iddynt gyrraedd.

Mae systemau ar waith i amddiffyn y bobl rhag niwed a chamdriniaeth. Mae'r rheolwr yn ystyried y risg o niwed oherwydd nad yw'r bobl sy'n aros yn y gwasanaeth yn gydnaws. Mae asesiadau risg yn ffeiliau'r bobl a chaiff digwyddiadau eu cofnodi yn ystod eu harhosiad. Mae'r staff gofal wedi derbyn hyfforddiant diogelu a gwnaethant ddweud wrthym y byddent yn teimlo'n hyderus i roi gwybod am fater diogelu posibl. Mae polisi diogelu ar waith sy'n darparu canllawiau ychwanegol.
Mae'r amgylchedd yn cefnogi llesiant. Ar hyn o bryd, mae'r gwasanaeth yn gweithio â llai o ddefnyddwyr gwasanaeth oherwydd bod y tîm staff yn newid a swyddi gwag, ond mae pob rhan o'r tŷ a ddefnyddir yn hygyrch, ac mae gan y gwasanaeth offer symud a thrin priodol a chymhorthion symudedd i gynorthwyo'r rheini sydd eu hangen. Mae'r rhain yn cael eu gwasanaethu a’u cynnal a'u cadw ac maent yn ddiogel i'w defnyddio.

Mae ansawdd y gofal a’r cymorth a ddarperir yn cael ei oruchwylio, ac mae’r staff gofal, y bobl sy’n aros yn y gwasanaeth, a’u perthnasau/cynrychiolwyr yn cael cyfle i roi adborth.

## Gofal a Chymorth

Mae gan y staff gofal gynllun cywir a chyfredol ar gyfer sut y dylid darparu gofal y bobl er mwyn diwallu eu hanghenion. Mae'r rheolwr a dirprwy reolwr presennol wrthi'n cwblhau adolygiad o'r holl ffeiliau ac yn nodi'r bobl hynny nad ydynt wedi aros yn Breakaway am dipyn ac felly bydd angen i'w rheolwr gofal eu hailatgyfeirio o bosibl gydag asesiad wedi'i ddiweddaru. Mae newidiadau yn anghenion ac amgylchiadau'r bobl rhwng pob arhosiad yn cael eu nodi cyn iddynt ddychwelyd, a chaiff crynodeb o arhosiad unigolyn ei gwblhau ar y diwedd er mwyn gwneud unrhyw newidiadau angenrheidiol i'r dogfennau gofal a rhoi adborth i'r gweithiwr proffesiynol priodol. Mae cynlluniau personol yn canolbwyntio ar yr unigolyn, yn cynnwys manylion angenrheidiol gan dîm amlddisgyblaethol, ac yn nodi canlyniadau'r bobl ar gyfer eu harhosiad. Mae asesiadau risg yn nodi unrhyw risgiau i iechyd a diogelwch yr unigolyn a chamau gweithredu sydd eu hangen i leihau'r risgiau hyn.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi i fod mor iach ag y gallant fod. Mae'r gwasanaeth yn gweithio ochr yn ochr â thîm amlddisgyblaethol o weithwyr iechyd proffesiynol a chydlynwyr gofal fel rhan o becyn gofal unigolyn. Mae asesiadau ac arweiniad gan weithwyr proffesiynol, megis deietegwyr, nyrsys anabledd dysgu a therapyddion lleferydd ac iaith, wedi'u cynnwys yn ffeiliau'r bobl ac mae'r staff gofal yn cael mynediad at hyfforddiant sy'n benodol i anghenion iechyd y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn rheolaidd. Ar adeg yr arolygiad diwethaf, roedd angen gwella rhywfaint ar arferion meddyginiaeth. Ar hyn o bryd, caiff meddyginiaeth ei storio'n ddiogel a'i rhoi yn unol â'r presgripsiwn, a cheir cofnodion priodol ac archwiliadau gan reolwyr. Mae'r bobl yn dod â dim ond digon o feddyginiaeth ar gyfer eu harhosiad, a chaiff hon ei chofnodi gan y staff gofal pan fyddant yn cyrraedd a gadael. Nid oes polisi meddyginiaeth cyfredol yn y gwasanaeth. Mae hyn oherwydd oedi'r darparwr gwasanaeth i ddiweddaru polisïau.

Mae'r gwasanaeth yn hyrwyddo arferion rheoli heintiau, ond nid oes unrhyw bolisïau rheoli heintiau neu COVID-19 cyfredol ar waith i gefnogi ac arwain staff. Mae’r rheolwyr yn ymgynghori ag Iechyd Cyhoeddus Cymru i gael y canllawiau COVID-19 diweddaraf ac i ofyn cwestiynau penodol. Gwelsom fod amgylchedd y cartref yn lân ac yn daclus pan wnaethom ymweld. Mae'r staff gofal yn cyflawni tasgau domestig yn ôl yr angen. Mae gwiriadau tymheredd yn parhau i gael eu cwblhau wrth ddod i mewn i'r tŷ ac mae'r rheolwyr yn gofyn i unrhyw un sydd â symptomau annwyd i brofi am COVID-19 cyn dod i'r gwasanaeth. Mae masgiau wyneb yn cael eu gwisgo mewn mannau caeedig neu wrth ddarparu gofal cyswllt agos.

## Yr Amgylchedd

Mae gofal a chymorth y bobl yn cael eu darparu mewn lleoliad ac amgylchedd sy'n eu hybu i gyflawni eu canlyniadau personol. Mae lifft, teclynnau codi a chymhorthion symudedd ar gael sy'n cael eu gwasanaethu a'u cynnal a'u cadw i'w defnyddio'n ddiogel pan fo angen. Mae gan gyfleusterau fel nwy a thrydan y gwiriadau diogelwch gofynnol. Mae offer tân, larymau a goleuadau argyfwng hefyd yn cael eu profi a'u cynnal a'u cadw i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn addas i'r diben. Mae cynlluniau personol gadael mewn argyfwng ar gael yn hawdd rhag ofn y bydd argyfwng. Mae ardaloedd cymunol ac ystafelloedd gwely unigol i’r bobl eu defnyddio fel y dymunant, yn dibynnu p’un a ydynt am fod gydag eraill neu fod ar eu pen eu hunain. Mae cyfleusterau golchi dillad ar gael os oes angen. Mae'r cartref wedi'i addurno â naws gartrefol. Mae gardd a man awyr agored dymunol a diogel.

Cymerir camau i leihau risg i iechyd a diogelwch y bobl. Mae'r tŷ wedi'i ddiogelu rhag ymwelwyr anawdurdodedig, ac mae rhannau o'r cartref a allai gynnwys eitemau peryglus megis cynhyrchion glanhau cemegol, neu feddyginiaeth, yn cael eu cloi pan nad ydynt yn cael eu defnyddio. Mae asesiadau risg iechyd a diogelwch ac unrhyw faterion cynnal a chadw wedi'u cynnwys yn ymweliadau ac adroddiadau monitro'r unigolyn cyfrifol.

## Arweinyddiaeth a Rheolaeth

Mae gan y bobl ddigon o wybodaeth am natur y gwasanaeth a'r hyn y mae'n ei ddarparu. Roedd y datganiad o ddiben a'r canllaw ar gyfer defnyddwyr y gwasanaeth wedi'u diweddaru ers yr arolygiad diwethaf i adlewyrchu'r gwasanaeth a gaiff ei ddarparu a'r bobl sy'n ei ddarparu ar hyn o bryd yn well. Mae rhai newidiadau'n cael eu gwneud i hyblygrwydd y gwasanaeth, a sut mae'n gweithio ochr yn ochr â chwaer wasanaethau. Caiff y rhain eu hadlewyrchu mewn diweddariadau pellach i'r dogfennau hyn. Mae'n ymddangos bod y rheolwyr yn cyfathrebu'n dda gyda rheolwyr gofal ac aelodau o'r teuluoedd i ateb unrhyw gwestiynau am Breakaway neu i roi unrhyw wybodaeth bellach yn ôl yr angen.

Mae'r bobl yn cael eu cefnogi gan nifer priodol o staff sy'n gymwys ac wedi'u hyfforddi ac sy'n cael eu cefnogi'n briodol i ddarparu'r lefel o ofal a chymorth sydd ei hangen. Mae newid yn y tîm staff yn cael ei weithredu ar hyn o bryd, a thra bo hyn yn mynd rhagddo, mae capasiti'r cartref wedi'i leihau. Mae'r staff gofal yn gweithio yng ngwasanaeth Breakaway a chwaer wasanaethau fel ei gilydd i ddarparu gwasanaeth hyblyg wedi'i deilwra i'r bobl. Caiff rotâu eu llunio yn unol â'r lleoedd a archebir, a chaiff derbyniadau ar gyfer arosiadau brys eu hasesu a'u derbyn os oes lefelau priodol o staff ar gael. Mae'r staff gofal yn cwblhau hyfforddiant gorfodol a phenodol i'r gwasanaeth. Cânt eu goruchwylio gan reolwr dynodedig yn eu gwasanaeth arferol, y gall rheolwr Breakaway ei wirio os oes angen. Mae recriwtiaid newydd wedi derbyn goruchwyliaeth unigol a grŵp gan y rheolwr o fewn mis iddynt ddechrau yn y gwasanaeth.

Mae trefniadau ar waith ar gyfer goruchwyliaeth effeithiol o'r gwasanaeth. Mae'r rheolwr yn archwilio crynodebau'r arosiadau seibiant ar ddiwedd arhosiad pob unigolyn i nodi p'un a oes angen gwneud unrhyw atgyfeiriadau neu newidiadau i'w dogfennau gofal. Mae'r unigolyn cyfrifol yn ymweld â'r gwasanaeth o leiaf bob tri mis ac yn llunio adroddiad ar ansawdd y gofal a ddarperir. Mae hyn yn cynnwys adborth gan y bobl a oedd yn aros yn Breakaway ar adeg ei ymweliad, eu perthnasau a'r staff gofal. Gwelsom dystiolaeth hefyd o'r adroddiadau ansawdd gofal chwe mis gofynnol, sy'n dadansoddi'r gwasanaeth ac yn nodi ei gryfderau a'i wendidau. Ar adeg yr arolygiad diwethaf, roedd y rhan fwyaf o'r polisïau gwasanaeth craidd a welsom wedi dyddio ac yn cynnwys gwybodaeth anghywir. Ar hyn o bryd, mae polisi diogelu a chynllun gweithredu a chanllawiau ar gyfer COVID-19 sy'n gyfredol. Fodd bynnag, mae polisïau fel rheoli heintiau, chwythu'r chwiban, meddyginiaeth ac iechyd a diogelwch yn dal wedi dyddio neu'n anaddas i'r gwasanaeth eu defnyddio. Er mai isel yw'r effaith ar y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, mae'r staff yn parhau i beidio â chael mynediad at ganllawiau pan fydd angen. Rydym wedi hysbysu'r darparwr gwasanaeth bod angen gweithredu â blaenoriaeth bellach.

| Crynodeb o'r Diffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae’r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfedd yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn a chafodd ei gyflawni. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan nodir canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a/neu risg i lesiant pobl, drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Mae'n rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae’n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio’r mater i Banel Gwella a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 12 | Rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith, a bod y rhain yn briodol i'r bobl yn y gwasanaeth ac yn cael eu cadw'n gyfredol. | Ni chyflawnwyd |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond na nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer y bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| Maes/Meysydd i'w Gwella | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| Amherthnasol | Ni nodwyd unrhyw ddiffyg cydymffurfio o'r math hwn yn yr arolygiad hwn | Amherthnasol |
| 36 | Rheoliad 36 (2) (d) – Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn derbyn hyfforddiant craidd sy'n briodol i'r gwaith a gyflawnir ganddo. | Cyflawnwyd |
| 36 | 36 (2) (c) – Mae'n rhaid i'r darparwr gwasanaeth sicrhau bod unrhyw unigolyn sy'n gweithio yn y gwasanaeth yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau priodol. | Cyflawnwyd |

**Dyddiad cyhoeddi** 26/10/2022